



Bridgend Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr

Hysbysiad preifatrwydd ymgeisydd am swydd (yn cydymffurfio â'r GDPR)

Mae BAVO yn ymwybodol o'i ymrwymiadau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ac wedi ymrwymo i brosesu eich data yn ddiogel ac yn dryloyw. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi, yn unol â'r GDPR, y mathau o ddata yr ydym yn eu casglu ac yn eu cadw amdanoch fel ymgeisydd am swydd. Mae hefyd yn nodi sut yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth honno, am ba hyd y byddwn yn ei chadw a gwybodaeth berthnasol arall am eich data.

Manylion rheolydd data

Mae BAVO yn rheolydd data, sy'n golygu ei fod yn penderfynu ar y prosesau i'w defnyddio wrth ddefnyddio eich data personol. Mae ein manylion cyswllt fel a ganlyn: Heidi Bennett (e-bost) dpofficer@bavo.org.uk

Egwyddorion diogelu data

O ran eich data personol, byddwn yn:

- eu prosesu yn deg, yn gyfreithlon ac mewn ffordd eglur a thryloyw;
- casglu eich data dim ond am resymau yr ydym o'r farn sy'n briodol ar gyfer ystod eich cyflogaeth mewn ffyrdd a esboniwyd i chi;
- eu defnyddio yn y ffordd yr ydym wedi eich hysbysu amdani yn unig;
- sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyffredol;
- cadw eich data dim ond cyhyd ag y byddwn eu hangen;
- eu prosesu mewn ffordd sy'n sicrhau na fyddant yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw beth nad ydych yn ymwybodol ohono neu wedi cydsynio iddo (fel sy'n briodol), yn cael eu colli na'u dinistrio.

Mathau o ddata yr ydym yn eu prosesu

Rydym yn cadw llawer o wahanol fathau o ddata amdanoch chi, gan gynnwys:

- eich manylion personol fel eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni, cyfeiriad e-bost, rhifau ffôn;
- rhywedd;
- statws priodasol;
- a oes gennych anabled neu beidio;
- gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn eich CV neu eich cais gan gynnwys cyfeiriadau, hanes addysg a hanes cyflogaeth;
- dogfennau yn ymwneud â'ch hawl i weithio yn y DU;
- trwydded yrru.

Sut yr ydym yn casglu eich data

Rydym yn casglu'r data amdanoch mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys yr wybodaeth y byddech yn ei chynnwys fel rheol mewn CV neu lythyr eglurhaol cais am swydd, neu nodiadau a wneir gan ein swyddogion recriwtio yn ystod cyfweiliad recriwtio. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chasglu wrthoch chi yn uniongyrchol pan fyddwch yn cwblhau ffurflenni os byddwch yn dechrau gweithio i ni, er enghraifft eich manylion banc a pherthynas agosaf. Gellir casglu manylion eraill wrthoch chi yn uniongyrchol ar ffurf dogfennau swyddogol fel eich cymwysterau, eich trwydded yrru, eich pasbort neu dystiolaeth hawl i weithio arall.

Mewn rhai achosion, byddwn yn casglu data amdanoch gan drydydd partion, fel asiantaethau cyflogaeth, cyn-gyflogwyr, gwasanaethau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wrth gasglu tystlythyrau neu asiantaethau cyfeirnod credyd.

Cedwir data personol mewn ffeiliau personol neu yn ein systemau adnoddau dynol neu TG.

Pam yr ydym yn prosesu eich data

Mae'r gyfraith ar ddiogelu data yn caniatáu inni brosesu eich data am resymau penodol yn unig:

- er mwyn cyflawni'r contract cyflogaeth yr ydym yn barti ynddo;
- er mwyn cyflawni dyletswyddau sy'n ofynnol o dan y gyfraith;
- er mwyn inni gyflawni ein buddiannau dilys;
- i ddiogelu eich buddiannau a
- phan fydd rhywbeth yn cael ei wneud er budd y cyhoedd.

Mae'r holl waith prosesu a wneir gennym yn cyd-fynd ag un o'r rhesymau a ganiateir. Byddwn yn dibynnu'n gyffredinol ar y tri rheswm cyntaf a nodir uchod i brosesu eich data.

Mae angen inni gasglu eich data i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol fel:

- cynnal archwiliadau yn ymwneud â'ch hawl i weithio yn y DU a
- gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer cyflogaion anabl.

Rydym hefyd yn casglu data fel y gallwn gyflawni gweithgareddau sy'n cyd-fynd â buddiannau dilys y sefydliad. Rydym wedi nodi'r rhain isod:

- gwneud penderfyniadau ynghylch pwy y dylid cynnig cyflogaeth iddynt;
- gwneud penderfyniadau am gyflog a buddion eraill;
- asesu anghenion hyfforddi;
- ymdrin â hawliadau cyfreithiol a wneir yn ein herbyn.

Os bydd eich cais am gyflogaeth yn aflwyddiannus, ni fydd eich data yn cael eu defnyddio am unrhyw reswm ac eithrio yn y ffyrdd a esbonnir yn ymwneud â'r cais penodol yr ydych wedi ei wneud, fel gwaith monitro cydraddoldeb dienw. Caiff CVs, ffurflenni cais wedi'u llenwi a, phan fo'n berthnasol, nodiadau cyfweiliad perthnasol, eu dileu ar ôl 4 mis, oni wneir hawliad yn erbyn y sefydliad. Cedwir yr wybodaeth am gyfnod llawn yr achos mewn achosion o'r fath.

Categoriâu data arbennig

Data yn ymwneud â'r canlynol yw categorïau data arbennig:

- iechyd;
- bywyd rhywiol;
- cyfeiriadedd rhywiol;
- hil;
- tarddiad ethnig;
- safbwyntiau gwleidyddol;
- crefydd;
- aelodaeth o undeb llafur a
- data genetig a biometrig.

Mae'n rhaid inni brosesu categorïau data arbennig yn unol â chanllawiau llymach. Yn fwyaf cyffredin, byddwn yn prosesu categorïau data arbennig pan fydd y canlynol yn berthnasol:

- rydych wedi rhoi cydsyniad eglur i'r prosesu;
- mae'n rhaid inni brosesu'r data er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol;
- mae'n rhaid inni brosesu data am resymau o fudd cyhoeddus arwyddocaol;
- rydych eisoes wedi gwneud y data yn gyhoeddus.

Byddwn yn defnyddio eich data categori arbennig:

- at ddibenion monitro cyfleoedd cyfartal

Nid oes angen eich cydsyniad os byddwn yn defnyddio categorïau data arbennig i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol neu i arfer hawliau penodol o dan gyfraith cyflogaeth. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn gofyn am eich cydsyniad fel y gallwn brosesu data sy'n arbennig o sensitif. Os bydd hyn yn digwydd, cewch eich hysbysu'n llawn am y rhesymau am y prosesu. Yn yr un modd â phob achos o ofyn am eich cydsyniad, bydd gennych reolaeth lawn dros eich penderfyniad i roi cydsyniad neu ei ddal yn ôl ac ni fydd unrhyw ganlyniadau pan fydd cydsyniad yn cael ei ddal yn ôl. Ar ôl ei roi, gellir tynnu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. Ni fydd unrhyw ganlyniadau pan fo cydsyniad yn cael ei dynnu'n ôl.

Data euogfarn droseddol

Byddwn yn casglu data euogfarn droseddol dim ond pan fo'n briodol o ystyried natur eich swydd a phan fo'r gyfraith yn caniatáu inni wneud hynny. Bydd y data hyn yn cael eu casglu yn ystod y cyfnod recriwtio fel rheol, ond gallent hefyd gael eu casglu yn ystod eich cyflogaeth os bydd eich cais yn llwyddiannus. Rydym yn defnyddio data euogfarn droseddol yn y ffyrdd canlynol:

Rydym yn prosesu'r data hyn oherwydd ein rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny ar gyfer swyddi penodol a allai fod yn gysylltiedig â grwpiau cleientiaid agored i niwed

Os na fyddwch yn darparu eich data i ni

Un o'r rhesymau dros brosesu eich data yw er mwyn ein galluogi i gyflawni proses recriwtio effeithiol. Er nad oes unrhyw rwymedigaeth arnoch i ddarparu eich data ar ein cyfer, efallai na fydd modd inni allu prosesu eich cais, neu barhau ag ef (fel sy'n briodol).

Rhannu eich data

Bydd eich data yn cael eu rhannu gyda chydweithwyr o fewn y sefydliad pan fo'n angenrheidiol iddynt gyflawni eu dyletswyddau recriwtio. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, y tîm adnoddau dynol, y rheini yn yr adran lle mae'r swydd wag sy'n gyfrifol am sgrinio eich cais a'ch cyfweld, yr adran TG pan fydd angen mynediad arnoch i'n systemau i gynnal unrhyw asesiadau sy'n gofyn am offer TG.

Mewn rhai achosion, byddwn yn casglu data amdanoch gan drydydd partïon, fel asiantaethau cyflogaeth.

Bydd eich data yn cael eu rhannu gyda thrydydd partïon os bydd eich cais am swydd yn llwyddiannus. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn rhannu eich data er mwyn

- cael gafael ar dystlythyrau yn rhan o'r broses recriwtio;
- cael gafael ar archwiliad cofnodion troseddol *os yw'n ofynnol inni wneud hynny*.

Nid ydym yn rhannu eich data â chyrrff y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Diogelu eich data

Rydym yn ymwybodol o'r gofyniad i sicrhau bod eich data yn cael eu diogelu rhag cael eu colli'n ddamweiniol neu eu datgelu, eu dinistrio neu eu camddefnyddio.

Rydym wedi rhoi prosesau ar waith i amddiffyn rhag digwyddiadau o'r fath trwy ein polisïau, ein gweithdrefnau a'n rheolaethau mewnol.

Pan fyddwn yn rhannu eich data â thrydydd partïon, rydym yn darparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig iddynt i sicrhau bod eich data yn cael eu cadw yn ddiogel ac yn unol â gofynion y GDPR. Mae'n rhaid i drydydd partïon roi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith i sicrhau diogelwch eich data.

Am ba hyd yr ydym yn cadw eich data

Yn unol ag egwyddorion diogelu data, rydym yn cadw eich data am gyhyd ag y bydd eu hangen yn unig, a bydd hyn yn dibynnu ar a ydych yn llwyddo i gael cyflogaeth gyda ni neu beidio.

Os na fydd eich cais yn llwyddiannus ac nad ydym wedi gofyn am eich cydsyniad neu nad ydych wedi rhoi cydsyniad i'n cais i gadw eich data at ddiben swyddi gwag addas yn y dyfodol, byddwn yn cadw eich data am 4 mis ar ôl i'r ymarfer recriwtio ddod i ben.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd eich data yn cael eu cadw a'u trosglwyddo i'r systemau yr ydym yn eu gweinyddu ar gyfer cyflogeion. Mae gennym hysbysiad preifatrwydd ar wahân ar gyfer cyflogeion, a fydd yn cael ei ddarparu i chi.

Gwneud penderfyniadau awtomatig

Ni fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud amdanoch chi ar sail penderfyniadau awtomatig yn unig (pan wneir penderfyniad gan ddefnyddio system electronig heb gyfranogiad dynol) sy'n cael effaith arwyddocaol arnoch.

Eich hawliau o ran eich data

Mae'r gyfraith ar ddiogelu data yn rhoi hawliau penodol i chi o ran y data yr ydym yn eu cadw amdanoch chi. Dyma nhw:

- yr hawl i gael eich hysbysu. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid inni ddweud wrthyich sut yr ydym yn defnyddio eich data, a dyna ddiben yr hysbysiad preifatrwydd hwn;
- yr hawl i fynediad. Mae gennych yr hawl i gael mynediad at y data yr ydym yn eu cadw amdanoch chi. I wneud hynny, dylech wneud cais am gael mynediad at ddata gan y testun;
- yr hawl i unrhyw beth sy'n anghywir gael ei gywiro. Os bydd y data yr ydym yn eu cadw amdanoch yn anghyflawn neu'n anghywir, gallwch ofyn i ni eu cywiro;
- yr hawl i gael dileu gwybodaeth. Os hoffech inni roi'r gorau i brosesu eich data, mae gennych yr hawl i ofyn inni eu dileu o'n systemau os ydych yn credu nad oes unrhyw reswm i ni barhau i'w prosesu;
- yr hawl i gyfyngu ar brosesu'r data. Er enghraifft, os byddwch yn credu bod y data yr ydym yn eu cadw yn anghywir, byddwn yn rhoi'r gorau i brosesu'r data (gan barhau i'w cadw) hyd nes y byddwn wedi sicrhau bod y data yn gywir;
- yr hawl i gludadwyedd. Cewch drosglwyddo'r data yr ydym yn eu cadw amdanoch at eich dibenion eich hun;
- yr hawl i wrthwynebu i gynnwys unrhyw wybodaeth. Mae gennych yr hawl i wrthwynebu i'r ffordd yr ydym yn defnyddio eich data pan fyddwn yn eu defnyddio at ein buddiannau cyfreithlon ein hunain;
- yr hawl i reoleiddio unrhyw benderfyniadau awtomatig a phroffilio data personol. Mae gennych yr hawl i beidio â bod yn destun penderfyniadau awtomatig mewn ffordd sy'n effeithio'n andwyol ar eich hawliau cyfreithiol.

Pan fyddwch wedi rhoi cydsyniad inni ddefnyddio eich data, mae gennych yr hawl anghyfyngedig hefyd i dynnu'r cydsyniad hwnnw yn ôl ar unrhyw adeg. Mae tynnu eich cydsyniad yn ôl yn golygu y byddwn yn rhoi'r gorau i brosesu'r data yr oeddech wedi rhoi cydsyniad inni eu defnyddio yn flaenorol. Ni fydd unrhyw ganlyniadau o dynnu eich cydsyniad yn ôl. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn parhau i ddefnyddio'r data lle caniateir inni wneud hynny trwy fod â rheswm dilys am wneud hynny.

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau a esbonnir uchod, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data (*e-bost*) dpofficer@bavo.org.uk

Gwneud cwyn

Y Comisiynydd Gwybodaeth yw'r awdurdod goruchwylio yn y DU ar gyfer materion diogelu data. Os ydych yn credu y bu diffyg cydymffurfiad â'ch hawliau diogelu data gennym ni mewn unrhyw ffordd, gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

26.02.21 © BAVO



112-113 Commercial Street
Heol y Fasnach • Maesteg CF34 9DL
T / Ff: 01656 810400
E: bavo@bavo.org.uk • www.bavo.org.uk

Company No / Rhif y cwmni: 07691764
Charity registration number / Rhif cofrestru elusen: 1146543